



Proses Ymchwilio Pryderon (Cymru)

Mawrth 2022

Cynnwys

Proses Ymchwilio Pryderon (Cymru)	1
Y cefndir	1
Cyflwyniad	1
Y dull gweithredu	1
Y broses gyfeirio.....	2
Cytuno ar y dull gweithredu	2
Ymchwiliadau pen desg	3
Ymchwiliadau ar y safle	4
Canlyniadau a chanfyddiadau	4
Rhoi adroddiad	5
Camau dilyniant	5
Atodiad 1: Penderfynu ar ganlyniad cyffredinol y Broses Ymchwilio Pryderon	6
Atodiad 2: Amserlen ar gyfer ymchwiliadau desg	7
Atodiad 3: Amserlen ar gyfer ymchwiliadau ar y safle	9
Atodiad 4: Diogelu data	11
Atodiad 5: Y rolau allweddol	12
Atodiad 6: Yr iaith Gymraeg	13

Y cefndir

1 Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth am y dull trosfwaol o ymchwilio pryderon am ansawdd a safonau academaidd. Mae'r ddogfen hon yn fersiwn wedi ei ddiweddarau o'r drefn ymchwilio a ddatblygwyd yn 2019. Mae'r drefn yn darparu mecanwaith y gall cyrff cyllido a rheoleiddio addysg uwch ei ddefnyddio i gyfeirio pryderon at QAA i'w hymchwilio am safonau academaidd neu ansawdd profiad y myfyrwyr mewn sefydliadau a reoleiddir.

2 Lluniwyd y broses ymchwilio i fod yn drwyadl ac yn gymesur ac i ddarparu'r sicrwydd sy'n bwysig i fyfyrwyr am safonau academaidd, canlyniadau'r myfyrwyr, a'r profiad academaidd. Mae QAA wedi rhoi ystyriaeth cyn belled ag y gall i'r safonau a nodwyd yn Rhan 2: Safonau a chanllawiau ar gyfer sicrwydd ansawdd allanol y [Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop \(ESG\)](#). Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod y broses ymchwilio'n cydnabod y safonau ar gyfer sicrwydd ansawdd mewnol a ddefnyddir gan y darparwyr ac mae wedi ei theilwra'n benodol i gyflawni nodau ac amcanion y Broses Ymchwilio Pryderon. Mae'r broses ymchwilio'n dilyn pedair elfen y prosesau sicrwydd ansawdd allanol: casgliad o ddeunyddiau a thystiolaeth ategol; asesiad allanol; adroddiad yr asesiad; a phroses ddilyniant lle bo'n briodol. Gweithredir ymchwiliadau gan dimau o adolygwyr hyfforddedig sy'n gymheiriaid neu'n fyfyrwyr. Mae'r canlyniadau wedi eu seilio ar feini prawf clir sydd wedi eu cyhoeddi (gwelwch Atodiad 1). Er nad yw canlyniadau ymchwiliadau i bryderon yn arwain at feirniadaethau ffurfiol am safonau academaidd dyfarniadau'r darparwyr ac ansawdd profiad academaidd eu myfyrwyr a fyddai'n ei gwneud hi'n bosibl apelio yn eu herbyn, mae [Trefn Gwyno QAA](#) yn galluogi i ddarparwyr roi gwybod i QAA am bryderon os ydynt yn anfodlon â gweithrediad y broses a'r rheiny sy'n ei gweithredu.

Cyflwyniad

3 Mae'r drefn ymchwilio'n cynnwys dau gam:

Cam 1 – dadansoddiad cychwynnol o'r pryder i weld a oes tystiolaeth o broblem ddifrifol sydd angen ei hymchwilio ymhellach. Gweithredir y cam hwn gan y corff cyllido a rheoleiddio addysg uwch (y corff cyllido) a gallai beri i'r achos gael ei gau heb orfod symud ymlaen i Gam 2.

Cam 2 – QAA yn gwneud ymchwiliad manwl i'r pryder pan mae'n cael ei gyfeirio gan y corff cyllido.

4 Gall ymchwiliad QAA ddigwydd o'r tu ôl i ddesg neu fod yn ymweliad â'r safle gan dîm adolygu. Mae'r broses ymchwilio'n caniatáu i ymchwiliad o'r tu ôl i ddesg gael ei droi'n ymweliad â'r safle os yw'r ymchwiliad pen desg yn ystyried bod natur y pryder yn ddifrifol neu bod yn rhaid ymweld â'r safle er mwyn casglu'r math o dystiolaeth sydd ei hangen.

5 Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r dull o weithredu ymchwiliadau, a dylid ei darllen ochr yn ochr â'r cynllun ymchwilio sy'n rhoi manylion y broses ymchwilio ar gyfer pob ymchwiliad penodol. Y cynllun ymchwilio yw'r ddogfen ddiffiniol a baratoir ar gyfer yr ymchwiliad ac a fydd wedi ei chytuno gan y corff cyllido a QAA ar ddechrau Cam 2 y broses.

Y dull gweithredu

6 Mae'r amseriadau dangosol ar gyfer y broses ymchwilio wedi eu nodi yn Atodiad 2 ar gyfer ymchwiliadau pen desg ac Atodiad 3 ar gyfer ymchwiliadau ar y safle.

Y broses gyfeirio

7 Bydd cyfeiriadau gan y corff cyllido'n cynnwys y canlynol:

- rhannu ffeil achos (canfyddiadau a thystiolaeth a gasglwyd hyd yn hyn)
- caniatâd i weld data perthnasol gan y corff cyllido am y darparwr a nodi unrhyw ofyniad i QAA brosesu data personol (gwelwch Atodiad 4 ynghylch diogelu data).
- dialog rhwng y Rheolwr Ymchwiliad i Bryderon a'r corff cyllido am gwmpas yr ymchwiliad, sy'n hanfodol i sicrhau bod yr ymchwiliad yn cael ei weithredu'n effeithiol.

Cytuno ar y dull gweithredu

8 Ar gyfer pob achos, bydd QAA yn ceisio cytundeb gyda'r corff cyllido, yn ystod cyfarfod cwmpasu, am gynllun ymchwilio sydd wedi ei deilwra'n bwrpasol.

9 Bydd y materion a ymchwilir yn derbyn ystyriaeth yn unol â'r pwyntiau cyfeirio sy'n briodol pan mae'r corff cyllido perthnasol yn rheoleiddio darparwyr addysg uwch. Bydd rhai pwyntiau cyfeirio'n berthnasol i'r DU gyfan, fel Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU, a bydd eraill yn benodol i'r cenhedloedd unigol. Yn ogystal, mae'r *Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop* (Rhan 1: safonau a chanllawiau ar gyfer sicrwydd ansawdd mewnol) yn elfen gyffredin o'r gofynion rheoleiddiol i gyrff cyllido'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae canllawiau'r corff cyllido perthnasol yn rhoi rhagor o fanylion am y gofynion ansawdd sylfaenol sy'n berthnasol i ansawdd a safonau academiaidd.¹

10 Pan fydd pryder yn cael ei gyfeirio at QAA, bydd y Rheolwr Ymchwiliad i Bryderon yn mynychu cyfarfod cwmpasu gyda'r corff cyllido i drafod a chytuno ar gwmpas yr ymchwiliad, boed yn ymchwiliad pen desg neu'n gofyn ymweld â'r safle, a bydd yr amseriadau'n cael eu cytuno ar gyfer cwblhau'r ymchwiliad. Nid yw ymchwiliad pen desg yn golygu na cheir ymweliad â'r safle yn ddiweddarach os bydd y tîm adolygu sy'n gwneud y dadansoddiad pen desg yn ystyried bod natur y pryder yn ddifrifol, neu'n penderfynu mai dim ond trwy ymweld â'r safle y gellir casglu'r math o dystiolaeth sydd ei hangen. Gallai'r math hwn o sefyllfa godi, er enghraifft, os bydd y tîm adolygu angen cwrdd â myfyrwyr neu aelodau penodol o'r staff a/neu weld cofnodion ysgrifenedig nad oes modd eu darparu'n electronig.

11 Ar sail y trafodaethau, datblygir cynllun ymchwilio i nodi'r dull gweithredu a'r cerrig milltir allweddol o fewn y broses. Rhennir y cynllun ymchwilio hwn gyda'r tîm adolygu. Mae'n rhaid i unrhyw wyriad oddi wrth y cynllun gael ei drafod a'i gytuno gyda'r corff cyllido. Bydd amlinelliad o'r cynllun ymchwilio, sy'n nodi'n fanwl beth yw natur y pryder a'r meysydd sydd dan sylw yn yr ymchwiliad, yn cael ei anfon at y darparwr. Os bydd angen i ymchwiliad pen desg symud ymlaen i ymweliad â'r safle (bydd y penderfyniad yn digwydd unwaith y mae'r darparwr wedi lanlwytho tystiolaeth ychwanegol ar ôl 3 wythnos), gall y cynllun gael ei ddiweddarau gyda chytundeb y corff cyllido. Os bydd yr Arweinydd Ymchwiliad yn dod yn ymwybodol o unrhyw faterion a allai effeithio ar weithrediad yr ymchwiliad neu feysydd eraill sy'n achosi pryder sydd y tu allan i gwmpas y cynllun, dylid trafod y materion hyn gyda'r Rheolwr Ymchwiliad i Bryderon gynted ag y bo modd.

12 Bydd QAA yn penodi tîm o ddau neu dri adolygwr, sy'n cynnwys adolygwr sy'n fyfyrwr fel arfer, i wneud yr ymchwiliad. Bydd maint y tîm adolygu'n dibynnu ar faint a chymhlethdod yr achos. Dewisir adolygwyr ar sail eu harbenigedd yn y maes sy'n achosi pryder. Rhoddir gwybod i'r darparwyr pwy yw aelodau'r tîm adolygu, a bydd gofyn iddynt gadarnhau nad oes

¹ [Canllawiau Cyngor Cyllido'r Alban ynghylch ansawdd i sefydliadau addysg uwch ar gyfer Awst 2017-2022](#) (yn Saesneg yn unig); y [Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru \(Ebrill 2020\)](#); a'r [Model Gweithredu Adolygedig ar gyfer Asesu Ansawdd \(Mawrth 2016\)](#) (yn Saesneg yn unig).

unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r bobl a ddewiswyd i fod yn aelodau cyn cadarnhau aelodaeth y tîm.

13 Bydd y tîm adolygu hefyd yn cynnwys swyddog QAA, a elwir yn Arweinydd Ymchwiliad, i arwain y tîm a rheoli'r broses ymchwilio. Mae disgrifiad o gyfrifoldebau'r rolau allweddol yn y broses i'w gael yn Atodiad 5.

14 Wrth gynllunio, gweithredu a darparu adroddiad am ymchwiliadau yng Nghymru, mae QAA wedi ei hymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac i roi ystyriaeth i ofynion a disgwyliadau'r Safonau Iaith Gymraeg. (Gallwch weld rhagor o wybodaeth yn Atodiad 6.) Yn ystod y camau cynllunio, bydd QAA yn canfod pa iaith a ddewiswyd gan y darparwr a'r cyfranogwyr unigol ar gyfer gweithredu'r ymchwiliad ynddi, a byddwn yn gwneud trefniadau cyfieithu fel y bo'r gofyn.

Ymchwiliadau pen desg

15 Mae crynodeb o amserlen a gweithgareddau'r ymchwiliad i'w gael yn Atodiad 2.

16 Wythnos ar ôl derbyn y ffeil achos, bydd y tîm adolygu'n gwneud dadansoddiad pen desg cychwynnol o'r ffeil achos a'r sail tystiolaeth. Byddant yn gwneud hyn gan gyfeirio at y cynllun ymchwilio, gan sicrhau bod pryderon penodol yn derbyn sylw. Mae'n debyg y bydd y dadansoddiad pen desg cychwynnol yn codi cwestiynau ac yn agor llinellau ymholi y bydd angen mynd i'r afael â nhw drwy geisio tystiolaeth ychwanegol. Fel arfer, bydd gan y tîm adolygu wythnos i wneud eu dadansoddiad cychwynnol ac, o ganlyniad i hynny, gallai'r tîm ofyn i'r darparwr am fwy o wybodaeth ac esboniad i bwytiau bythefnos i mewn i'r broses ymchwilio. Bydd y darparwr yn cael wythnos i ddarparu tystiolaeth ychwanegol, naill ai drwy lanlwytho ffeiliau neu drwy adael i QAA agor eu storffeydd ffeiliau. Dim ond mewn perthynas â'r pryderon a godwyd y ceir ceisiadau am fwy o dystiolaeth, a byddant yn geisiadau am wybodaeth a ystyrir yn bwysig er mwyn dod i gasgliad cadarn. O ystyried yr amser byr sydd ar gael o fewn yr amserlen i gyflwyno tystiolaeth ychwanegol, bydd QAA yn ymwybodol bod yn rhaid gwneud y ceisiadau hyn yn gymesur a pheidio â gorlethu'r darparwr.

17 Yna bydd y tîm adolygu'n dadansoddi unrhyw dystiolaeth ychwanegol ac yn ystyried a fydd modd cwblhau'r ymchwiliad fel ymarfer pen desg neu a fydd y tîm yn argymhell bod natur yr ymchwiliad yn gofyn ymweld â'r safle. Os bydd y tîm adolygu'n ystyried bod natur y pryder yn ddifrifol ac/neu mai'r unig ffordd y gellir darparu'r math o dystiolaeth y mae angen iddo ei chasglu yw drwy ymweld â'r safle, bydd y Rheolwr Ymchwiliad i Bryderon yn rhoi gwybod i'r corff cyllido ac yn trafod a oes angen diweddarau'r cynllun ymchwilio i gynnwys ymweliad â'r safle ac, os felly, beth fydd hyd yr ymweliad ar y safle (naill ai un diwrnod neu ddau, yn unol â'r broses ymchwilio ar y safle).

18 Pan fydd yr ymchwiliad yn parhau fel ymchwiliad pen desg, bydd y tîm adolygu'n cyfarfod o fewn wythnos i ystyried y dystiolaeth ychwanegol er mwyn trafod eu canfyddiadau ac i benderfynu ar ganlyniad cyffredinol eu hymchwiliad. Bydd y cyfarfod hwn yn digwydd yn breifat, naill ai'n rhithwir neu wyneb yn wyneb; ond, ni fydd y cyfarfod hwn yn digwydd ar safle'r darparwr. Isod mae manylion y canlyniadau a'r canfyddiadau, a'r broses adrodd, sy'n gyffredin i ymchwiliadau pen desg ac i ymchwiliadau ar y safle.

Ymchwiliadau ar y safle

19 Mae amserlen a gweithgareddau'r ymchwiliad ar-lein wedi eu crynhoi ar wahân yn Atodiad 3.

20 Bydd y tîm adolygu'n gwneud dadansoddiad pen desg o'r ffeil achos a'r sail tystiolaeth gan ddilyn yr un drefn ag ymchwiliad pen desg (paragraff 15).

21 Bydd QAA fel arfer yn rhoi rhybudd o bythefnos i ddarparwyr am ddyddiad ymweliad o fewn amserlen y mae'r corff cyllido wedi cytuno arni. Bydd y tîm adolygu'n llunio amserlen yr ymweliad ac yn ei rhannu gyda'r darparwr. Bydd yr ymweliad ymchwilio'n digwydd ar ffurf nifer o gyfarfodydd ar safle'r darparwr, a diben y rhain yw ateb unrhyw gwestiynau sy'n parhau ar ôl y dadansoddiad pen desg. Mae'r ymweliad yn rhoi cyfle defnyddiol i'r tîm adolygu gael dealltwriaeth drwyadl o ymwybyddiaeth y darparwr o'r pryderon sy'n cael eu hymchwilio ac unrhyw gamau gweithredu sydd wedi eu cyflawni hyd hynny. Pan fydd yr achos yn codi pryderon a allai effeithio ar brofiad y myfyriwr, gallai'r tîm ofyn am gyfarfod â'r myfyrwr perthnasol.

22 Pan fydd ymchwiliad ar y safle, bydd hyd yr ymweliad yn cael ei gytuno ar ddechrau'r broses ac yn cael ei nodi yn y cynllun ymchwilio. Fodd bynnag, pan fydd y dadansoddiad pen desg yn argymhell bod ymweliad yn digwydd, yna bydd y cynllun ymchwilio'n cael ei ddiweddarau i gynnwys hyd yr ymweliad (gwelwch baragraff 16) a rhoddir gwybod i'r darparwr.

23 Bydd yr Arweinydd Ymchwiliad yn cytuno â'r darparwr, mewn ymgynghoriad â'r tîm adolygu, beth yw dyddiau a manylion penodol amserlen yr ymweliad. Natur, cwmpas a difrifoldeb y pryderon a godir fydd yn penderfynu pa bobl i gyfarfod â nhw yn ystod yr ymweliad. Bydd yr amserlen yn cynnwys cyfarfod preifat y tîm i drafod a chytuno ar y canfyddiadau ar gyfer yr adroddiad, ar sail y dystiolaeth ddogfennol a'r cyfarfodydd ar safle'r darparwr.

Canlyniadau a chanfyddiadau

24 Ar ddiwedd yr ymchwiliad, bydd y tîm yn barnu a yw'r pryderon a godwyd yn y cynllun ymchwilio'n gyfiawn ai peidio. Bydd canlyniad cyffredinol yr ymchwiliad yn cael ei fynegi fel un o'r canlynol:

- *ni chanfuwyd unrhyw broblemau* – naill ai does dim sail i gefnogi'r pryder neu mae tystiolaeth i ddangos bod y pryder wedi ei ddatrys yn dderbyniol gan y darparwr
- *canfuwyd problemau bychain* – byddai hyn yn gofyn i'r darparwr ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu
- *canfuwyd problemau difrifol* – byddai hyn yn gofyn i'r darparwr ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu a byddai'n gofyn am waith monitro parhaus yn rhan o fframwaith sicrhau ansawdd y corff cyllido.

25 Mae arweiniad manylach i'w gael yn Atodiad 1 am y ffordd y dylai'r tîm benderfynu ar y canlyniad.

26 Ar ddiwedd yr ymchwiliad ar y safle, bydd y tîm adolygu'n rhoi rhywfaint o adborth cyffredinol i'r darparwr am ganfyddiadau dros dro'r tîm. Ond, ni fydd y tîm yn rhoi adborth penodol ar feysydd megis nifer a geiriad yr argymhellion neu union ganlyniad yr ymchwiliad (dim problemau, problemau bychain neu broblemau difrifol). Y rheswm am hyn yw mai QAA fydd yn adolygu ac yn safoni'r adroddiad ac y gallai hynny arwain at newidiadau i'r canfyddiadau dros dro.

Rhoi adroddiad

27 Ar ôl yr ymchwiliad, bydd QAA yn paratoi adroddiad am y canfyddiadau ar sail y dystiolaeth, a fydd yn cynnwys y canlynol:

- disgrifiad o'r mater/materion sydd dan sylw yn yr ymchwiliad
- disgrifiad byr o'r Broses Ymchwilio Pryderon a'r bobl hynny sy'n gysylltiedig
- canfyddiadau sy'n ymwneud â'r mater/materion
- canlyniad cyffredinol yr ymchwiliad a beirniadaethau sy'n dweud a yw'r materion yn systematig neu a oes ganddynt y potensial i gael effaith ehangach, ac a ydyn nhw'n dangos ansawdd sydd naill ai'n annigonol neu sy'n debygol o fynd yn annigonol casgliadau ac argymhellion am gamau dilyniant gan y darparwr.

28 Pan fydd problemau eraill wedi dod i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad, bydd QAA yn rhoi crynodeb cyfrinachol byr i'r corff cyllido/rheoleiddio i nodi beth yw natur y broblem/problemau a'r dystiolaeth a ddangosodd hyn i'r tîm. Ni fydd y tîm yn ymchwilio neu'n ceisio'r dystiolaeth.

29 Bydd QAA yn anfon yr adroddiad drafft at y darparwr gyda chopi i'r corff cyllido, er mwyn galluogi i'r darparwr ei wirio i weld a yw'n ffeithiol gywir a thynnu sylw at unrhyw broblemau gweithdrefnol. Os oes rhaid, bydd yr adroddiad yn cael ei addasu cyn i'r fersiwn terfynol gael ei rannu gyda'r corff cyllido a'r darparwr. Bydd y corff cyllido'n penderfynu a ddylid cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

30 Yn dilyn yr ymchwiliad, bydd QAA yn gwerthuso'r broses ymchwilio, gan geisio adborth gan yr Arweinydd Ymchwiliad, yr adolygwyr a'r darparwr.

Camau dilyniant

31 Pan fydd canlyniad cyffredinol yr ymchwiliad yn sôn bod yno broblemau bychain neu ddifrifol, bydd gofyn i'r darparwr gyflwyno cynllun gweithredu. Pythefnos ar ôl cael gwybod am benderfyniad y corff cyllido am y pryder a'r camau nesaf, dylai'r darparwr gyflwyno'r cynllun gweithredu i'r corff cyllido/rheoleiddio i dderbyn cymeradwyaeth. Efallai y bydd y corff cyllido/rheoleiddio'n ymgynghori â QAA ynglŷn â pha mor effeithiol yw'r cynllun o ran mynd i'r afael â'r canfyddiadau o fewn amseriadau rhesymol.

32 Bydd QAA yn cymryd camau dilyniant a fydd wedi eu penderfynu gan y corff cyllido/rheoleiddio. Gallai'r rhain gynnwys adolygiad pen desg o dystiolaeth a gyflwynwyd gan y darparwr o gwblhau camau gweithredu penodol, neu ymweliad dilyniant gan swyddog QAA i gwrdd â'r bobl hynny sy'n gyfrifol ac yn atebol am y camau gweithredu, a cheisio adborth gan y rheiny sy'n cael eu heffeithio gan y camau. Bydd y camau dilyniant wedi eu comisiynu ar wahân gan y corff cyllido.

Atodiad 1: Penderfynu ar ganlyniad cyffredinol y Broses Ymchwilio Pryderon

Bydd y tri chategori a ganlyn yn cael eu defnyddio i benderfynu ar ganlyniad cyffredinol yr ymchwiliad:

- Dim problemau
- Problemau bychain
- Problemau difrifol.

Y bwriad yw bod y tîm yn defnyddio'r grid isod i dywys ei ystyriaethau, ond nid fel 'rhestr wirio'. Fodd bynnag, os bydd unrhyw fater unigol yn perthyn i'r categori 'problemau difrifol', dylai'r canlyniad cyffredinol ddod i'r casgliad bod problemau difrifol yno.

Dim problemau	Problemau bychain	Problemau difrifol
<p>Hepgoriad neu amryfusedd bychan.</p> <p>Yr angen i addasu neu ddiweddarau manylion mewn dogfennaeth, lle na fydd yr addasiad yn creu neu'n gofyn am greu newid strwythurol, gweithredol neu drefniadol mawr.</p> <p>Cwblhau gweithgaredd sydd ar waith yn barod mewn nifer fechan o feysydd a fydd yn galluogi i'r darparwr fodloni'r gofynion sylfaenol yn llawnach.</p> <p>Nid yw problemau'n arwydd o broblemau systemig yn y ffordd y rheolir y maes hwn ac nid ydynt yn cyflwyno unrhyw risgiau posibl i'r rheolaeth ar safonau ac ansawdd.</p>	<p>Gwendidau yng ngweithrediad rhan o strwythur llywodraethu (academaidd) y darparwr neu ddiffyg eglurder am gyfrifoldebau.</p> <p>Pwyslais neu flaenoriaeth annigonol ar sicrhau safonau, ansawdd, neu wybodaeth ym mhrosesau'r darparwr.</p> <p>Trefnau sicrhau ansawdd sydd â rhai gwendidau, er eu bod yn ddigonol i raddau, yn nhermau pa mor fanwl gywir y cânt eu gweithredu.</p> <p>Problemau sydd wedi eu cyfyngu i ran fechan o weithgareddau'r darparwr.</p> <p>Mae'r problemau'n rhannol systemig am nad yw'r prosesau a'r gweithdrefnau'n gweithredu mor effeithiol ag y gallent fod efallai.</p> <p>Efallai bod rhai problemau cymedrol yn bodoli a allai arwain, os na chânt ddigon o sylw, at broblemau difrifol dros amser gyda rheoli safonau neu ansawdd.</p>	<p>Gweithrediad aneffeithiol rhannau o strwythur llywodraethu academaidd y darparwr.</p> <p>Bylchau sylweddol mewn polisi, strwythurau neu weithdrefnau sy'n ymwneud â safonau academaidd y darparwr, ei sicrwydd ansawdd, neu ansawdd ei wybodaeth.</p> <p>Y darparwr yn torri ei drefnau rheoli sicrwydd ansawdd ei hun.</p> <p>Mae'r problemau a ganfuwyd yn effeithio ar rannau niferus o weithgareddau'r darparwr.</p> <p>Mae'r problemau'n systemig am fod prosesau a gweithdrefnau'n aneffeithiol neu heb eu rheoli'n gywir.</p> <p>Efallai fod rhai problemau difrifol yn bodoli a allai, os na chânt eu trin ar frys ac yn ddigonol, gael effaith ddifrifol ar reolaeth safonau ac/neu ansawdd.</p>

Atodiad 2: Amserlen ar gyfer ymchwiliadau desg

Bydd y cynllun ymchwilio'n nodi'r union amserlen ar gyfer pob achos a gyfeirir at QAA. Mae'r tabl isod yn rhoi amserlen ddangosol ar gyfer ymchwiliad pen desg i bryderon.

Wythnosau gwaith	Gweithgareddau
Wythnos 0	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfeirio'r achos at QAA i'w ymchwilio
+1 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal cyfarfod cwmpasu gyda'r corff cyllido i drafod yr achos • Cytuno ar y cynllun ymchwilio, yn cynnwys maint a chyfansoddiad y tîm adolygu • Y darparwr yn cael gwybod am y meysydd sydd dan sylw ac amseriadau'r ymchwiliad • Penodi'r tîm adolygu a gofyn i'r darparwr a oes unrhyw wrthdaro buddiannau
+2 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Y tîm ymchwilio'n gwneud dadansoddiad pen desg • Y darparwr yn cael gwybod am unrhyw geisiadau am wybodaeth ychwanegol
+3 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Y darparwr yn lanlwytho tystiolaeth ychwanegol • Y tîm adolygu'n asesu'r dystiolaeth ychwanegol i benderfynu a yw'n bosibl parhau i ymdrin â natur y pryder drwy ymchwiliad pen desg • Pan mae'r tîm yn fodlon bod yr ymchwiliad yn cael parhau fel ymchwiliad pen desg, bydd yn parhau â'i waith dadansoddi a pharatoi ar gyfer y cyfarfod ymchwilio • Os bydd y cynllun ymchwilio'n cael ei addasu i ymweliad ymchwilio, gyda chytundeb y corff cyllido, yna cyfeirwch at Atodiad 3
+4 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Y tîm adolygu'n cynnal cyfarfod ymchwilio preifat i drafod ei ganfyddiadau a phenderfynu ar ganlyniad cyffredinol yr ymchwiliad
+5 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Anfon yr adroddiad drafft at y darparwr i'w wirio i weld a yw'n ffeithiol gywir • Rhannu'r adroddiad drafft gyda'r corff cyllido
+6 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Y darparwr yn dychwelyd ei sylwadau ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad i QAA
+7 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Y tîm yn adolygu'r adroddiad mewn ymateb i sylwadau'r darparwr • Anfon yr adroddiad at dîm cyhoeddiadau QAA i'w wirio (a sicrhau ei fod ar gael i'r corff cyllido)
+9 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Yr adroddiad yn cael ei gyfieithu (Cymru yn unig)
+11 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Anfon yr adroddiad terfynol at y corff cyllido • Anfon copi o'r adroddiad terfynol at y darparwr • Y corff cyllido'n ystyried a ddylid cyhoeddi'r adroddiad
+12 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Y corff cyllido'n rhoi gwybod i'r darparwr am y penderfyniad a'r camau nesaf

+14 wythnos	<ul style="list-style-type: none"><li data-bbox="416 183 1402 273">• Y darparwr yn cyflwyno cynllun gweithredu i'r corff cyllido (os yw'r canlyniadau'n nodi problemau bychain/difrifol)
-------------	--

Atodiad 3: Amserlen ar gyfer ymchwiliadau ar y safle

Bydd y cynllun ymchwilio'n nodi'r union amserlen ar gyfer pob achos a gyfeirir at QAA. Mae'r tabl isod yn rhoi amserlen ddangosol ar gyfer ymchwiliad i bryderon ar y safle.

Wythnosau gwaith	Gweithgareddau
Wythnos 0	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfeirio'r achos at QAA i'w ymchwilio
+1 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal cyfarfod cwmpasu gyda'r corff cyllido i drafod yr achos • Cytuno ar y cynllun ymchwilio, yn cynnwys maint a chyfansoddiad y tîm adolygu • Y darparwr yn cael gwybod am y meysydd sydd dan sylw ac amserlen yr ymchwiliad • Penodi'r tîm adolygu a gofyn i'r darparwr a oes unrhyw wrthdaro buddiannau
+2 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Y tîm ymchwilio'n gwneud dadansoddiad pen desg • Y darparwr yn cael gwybod am unrhyw geisiadau am wybodaeth ychwanegol
+3 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Y darparwr yn lanwytho tystiolaeth ychwanegol • Y tîm adolygu'n parhau i wneud ei ddadansoddiad pen desg • Y darparwr yn cael gwybod am amserlen yr ymweliad • Mewn perthynas ag ymchwiliadau yng Nghymru, gwahoddir y darparwr i roi gwybod os oes angen gwneud elfennau o'r ymweliad ymchwilio yn Gymraeg • Y tîm yn parhau â'i waith o baratoi ar gyfer yr ymweliad â'r safle
+4 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Yr ymweliad â safle'r darparwr yn digwydd
+5 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Anfon yr adroddiad drafft at y darparwr i'w wirio i weld a yw'n ffeithiol gywir • Rhannu'r adroddiad drafft gyda'r corff cyllido
+6 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Y darparwr yn dychwelyd ei sylwadau ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad i QAA
+7 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Y tîm yn adolygu'r adroddiad mewn ymateb i sylwadau'r darparwr • Anfon yr adroddiad at dîm cyhoeddiadau QAA i'w wirio (a sicrhau ei fod ar gael i'r corff cyllido)
+9 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Yr adroddiad yn cael ei gyfieithu (Cymru yn unig)
+11 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Anfon yr adroddiad terfynol at y corff cyllido • Anfon copi o'r adroddiad terfynol at y darparwr • Y corff cyllido'n ystyried a ddylid cyhoeddi'r adroddiad
+12 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Y corff cyllido'n rhoi gwybod i'r darparwr am y penderfyniad a'r camau nesaf
+14 wythnos	<ul style="list-style-type: none"> • Y darparwr yn cyflwyno cynllun gweithredu i'r corff cyllido (os yw'r canlyniadau'n nodi problemau bychain/difrifol)

Atodiad 4: Diogelu data

Mae QAA yn cydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016/679 (RhDDC) yr UE, *Deddf Diogelu Data 2018*, ac unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol arall mewn perthynas â data personol. Dim ond at ddibenion gweithredu ei gweithgareddau adolygu y mae QAA yn prosesu data personol ac, yn yr achos hwn, bydd yn sicrhau bod data ar gael dim ond i'r rheiny sydd angen ei weld er mwyn bodloni gofynion y Broses Ymchwilio Pryderon.

Mae QAA wedi ymrwymo i sicrhau a diogelu cyfrinachedd data personol a/neu ddata sy'n perthyn i gategoriâu neilltuol, ac mae pob aelod o'r staff yn gyfrifol am drin data yn unol â Pholisi Diogelu Data QAA er mwyn sicrhau bod gwybodaeth bersonol a gwybodaeth sy'n perthyn i gategoriâu neilltuol yn cael ei phrosesu yn unol â'r polisi hwn. Mae pob aelod o staff QAA a phob adolygwr QAA yn derbyn hyfforddiant RhDDC yn flynyddol. Mae [Hysbysiad Preifatrwydd QAA](#) yn nodi'r ffordd y mae QAA yn casglu ac yn prosesu gwybodaeth bersonol, hawliau'r unigolyn a dyletswyddau QAA. Mae gweithdrefn a Pholisi ar gyfer Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau yn ymwneud â Diogelu Data i roi gwybod am ddigwyddiadau, eu hasesu a'u rheoli.

Mae QAA yn storio data personol a data eraill yn ddiogel ac yn sicrhau eu bod yn hygyrch dim ond i'r bobl hynny sydd angen eu gweld er mwyn gweithredu'r Broses Ymchwilio Pryderon. Ni fydd unrhyw ddata neu wybodaeth a dynnir ohonynt yn cael eu pasio i unrhyw barti heb gytundeb ysgrifenedig y corff cyllido. Bydd yr holl ddata, neu bob copi neu ddyfyniad a wneir ohonynt naill ai'n cael eu dychwelyd gan QAA i'r corff cyllido, yn cael eu dinistrio ar gais y corff cyllido neu'n cael eu dinistrio yn unol â pholisi cadw cofnodion QAA.

Mae QAA wedi derbyn ardystiad ISO27001 ar gyfer ei phrosesau rheoli diogelwch gwybodaeth.

Atodiad 5: Y rolau allweddol

Y Rheolwr Ymchwiliad i Bryderon

Dyma'r unigolyn yn QAA sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithrediad ymchwiliadau Cam 2. Y Rheolwr Ymchwiliad i Bryderon yw'r cyswllt cyntaf i'r tîm ymchwilio ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â'r broses. Dyma rai o brif gyfrifoldebau'r rheolwr:

- cysylltu â'r corff cyllido i gytuno ar gynllun ymchwilio ar gyfer pob pryder a gyfeirir at QAA
- cysylltu â'r darparwr i gytuno ar fanylion yr ymchwiliad
- datblygu deunyddiau hyfforddi a chanllawiau i gefnogi aelodau'r tîm i gyflawni eu rolau'n effeithiol
- dethol adolygwyr ar gyfer y tîm ymchwilio er mwyn sicrhau bod cyfatebiaeth briodol rhwng eu meysydd arbenigedd a natur y pryder
- rhoi cymorth i'r Arweinydd Ymchwiliad gydag ymdrin ag achosion cymhleth neu anodd
- monitro, gwerthuso a gwella'r dull a ddefnyddir i wneud Ymchwiliadau i Bryderon.

Yr Arweinydd Ymchwiliad

Mae'r Arweinydd Ymchwiliad yn un o swyddogion QAA sydd wedi ei aseinio i bob achos a gyfeirir at QAA. Dyma'r unigolyn a benodir gan QAA i reoli'r broses a'r tîm adolygu ar gyfer ymchwiliad penodol i bryderon. Dyma brif gyfrifoldebau'r arweinydd:

- gweithredu fel y prif gyswllt ar gyfer y darparwr yn ystod yr ymchwiliad
- cydlynu gweithgareddau'r tîm drwy gydol y broses, gan gynnwys gwneud yn siŵr bod y cyfrifoldebau wedi eu dyrannu'n briodol ymysg aelodau'r tîm
- sicrhau bod yr ymchwiliad yn cael ei weithredu yn unol â'r Broses Ymchwilio Pryderon a'r cynllun ymchwilio y cytunwyd arno
- cefnogi'r adolygwyr i ganfod tystiolaeth a chadw cofnod parhaus o'r dystiolaeth
- cadeirio cyfarfodydd preifat y tîm adolygu a datblygu agendâu ar gyfer cyfarfodydd y tîm gyda'r darparwr
- sicrhau bod casgliadau'r tîm wedi eu seilio ar dystiolaeth
- cadw cofnod o benderfyniadau'r tîm, ac o'i drafodaethau gyda'r staff a'r myfyrwyr
- golygu'r adroddiadau am ganfyddiadau i sicrhau eu bod yn alinio ag arddull fewnol benodol QAA.

Mae'r Arweinydd Ymchwiliad yn gyfrifol am oruchwylio'r broses ymchwilio a'i chanlyniadau.

Yr adolygwyr

Yn ychwanegol at yr Arweinydd Ymchwiliad, bydd y tîm yn cynnwys dau neu dri adolygwr, yn dibynnu ar gwmpas a chymhlethdod yr achos. Dyma brif gyfrifoldebau'r adolygwyr:

- dadansoddi'r sail tystiolaeth
- llunio llinellau ymholi i'w dilyn yn ystod yr ymweliad er mwyn sicrhau bod y pryder yn cael ei ymchwilio'n drwyadl ac yn wrthrychol
- barnu ar sail y dystiolaeth a yw'r pryder a godwyd yn gyfiawn ai peidio a pha mor ddifrifol yw unrhyw broblemau a ganfuwyd
- llunio argymhellion i nodi meysydd gweithredu y mae angen i'r darparwr eu gwella
- ysgrifennu adroddiad am ganfyddiadau ar sail tystiolaeth.

Atodiad 6: Yr iaith Gymraeg

Mae QAA wedi ei hymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth wneud ei gwaith yng Nghymru. Caiff pob dogfen sy'n ymwneud â'r cynllun ymchwilio, yn ogystal â phob adroddiad ymchwilio cyhoeddedig, eu cynhyrchu yn y ddwy iaith.

Ar gyfer adolygiadau ac ymchwiliadau o ddarparwyr yng Nghymru, rydym yn ceisio penodi adolygwyr a swyddogion QAA sy'n ddwyieithog i weithredu fel yr Arweinydd Ymchwiliad. Mae ein proses hysbysebu a phenodi'n cefnogi'r amcan yma'n weithredol. Mewn unrhyw adolygiad neu ymchwiliad o ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru, rydym yn cydnabod bod gan bob unigolyn yr hawl i ddewis y Gymraeg fel cyfrwng a bod gan bob adolygwr dwyieithog yr hawl i siarad Cymraeg. Byddwn fel arfer yn ceisio cytundeb i ddefnyddio cyfleusterau cyfieithu sydd gan y darparwr yn barod, neu os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn darparu ein cyfleusterau cyfieithu ysgrifenedig neu gyfieithu ar y pryd ein hunain.

Yn ystod camau cynllunio cychwynnol ein hadolygiadau, rydym yn sicrhau bod y Swyddog QAA yn canfod pa iaith a ddewiswyd gan y darparwr a'r cyfranogwyr unigol ar gyfer gweithredu'r ymchwiliad ynddi, gan benderfynu pa elfennau o'r broses sydd i gael eu gweithredu yn Gymraeg, a byddwn yn gwneud trefniadau cyfieithu (rhwng y Gymraeg a'r Saesneg) lle bo'n briodol.

Gall darparwyr gyflwyno eu dogfennau yn y naill iaith neu'r llall, yn ôl eu dewis.

Yn dilyn cytundeb ynglŷn â pha elfennau o'r ymchwiliad fydd yn cael eu gweithredu'n ddwyieithog, byddwn yn gwneud trefniadau, ac yn talu costau, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer y gweithgareddau adolygu hynny yr ydym wedi cytuno i'w gweithredu'n ddwyieithog.

Rydym yn cydnabod bod maint y defnydd a wneir fel arfer o'r Gymraeg a'r Saesneg yn amrywio rhwng darparwyr a gweithleoedd. Rydym yn parchu'r gwahaniaethau hyn ac yn ceisio penodi arweinwyr ymchwiliad ac adolygwyr sy'n ddwyieithog, lle bo'n briodol, i hwyluso'r broses adolygu ar gyfer darparwyr lle defnyddir y Gymraeg yn helaeth.

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Dyddiad cyhoeddi – 29 Ebrill 2022

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2022
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557050 (English) 029 2048 5963 (Cymraeg)
Gwefan: www.qaa.ac.uk